

Rhif: WG36596.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Diwygiadau i Reoliadau Partneriaeth o dan Ran 9 o'r Ddeddf

Chwefror 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Atodiad
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:
Diwygiadau i Reoliadau Partneriaeth o dan Ran 9 o'r Ddeddf –
Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Cynnwys	Tudalen
Adran 1	
Cyflwyniad	3
Cefndir	3
Y Cynnig	4
Ymgynghoriad	4
Adran 2	
Crynodeb o'r cwestiynau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad	5
Trosolwg o'r newidiadau i Reoliadau'r Diwygiad yn dilyn yr ymgynghoriad	17
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr.	

Atodiad

Adran 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn trafod diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("Rheoliadau Partneriaeth") o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ym mis Mehefin 2018, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus tri mis o hyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn trosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan symud y ffin rhwng y byrddau iechyd yn unol â hynny. Bydd y newid hwn yn gosod trefniadau partneriaeth economaidd, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gadarn o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Daw'r hyn i rym ar 1 Ebrill 2019.

O ganlyniad mae angen diwygio'r Rheoliadau Partneriaeth a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Aseidiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau'r Aseidiadau Poblogaeth") i ystyried y newid yn ffiniau'r byrddau iechyd. Mae hyn yn gyfle i gynnal arolwg o'r rheoliadau hyn ar yr un pryd, gan gynnwys, yn benodol, mewn perthynas â'r gofyniad i sefydlu cronfeydd cyfun a'i gwneud yn ofynnol i rywun sy'n cynrychioli'r sector tai fod yn aelod o bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

Bydd angen hefyd gwneud diwygiadau bach i God Ymarfer Rhan 2 a'r canllawiau statudol mewn perthynas â chynlluniau ardal a newidiadau mwy sylfaenol i Ganllawiau Statudol Rhan 9.

Cefndir

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sicrhau bod strwythurau ac adnoddau priodol ar waith i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig. Mae'r Rheoliadau Partneriaeth yn darparu ar gyfer sefydlu saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn seiliedig ar ôl troed y byrddau iechyd. Ymhlith eu hamcanion mae sicrhau bod partneriaid yn gwneud y canlynol:

- ymateb i'r asesiad poblogaeth sy'n ofynnol o dan y Ddeddf;
- gweithredu cynlluniau ardal a lunnir mewn ymateb i'r asesiad hwnnw;
- hyrwyddo'r broses o sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.

Mae'r Rheoliadau Partneriaeth yn nodi bod yn rhaid i aelodaeth pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol gynnwys y canlynol:

- O leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol;
- O leiaf un aelod o'r bwrdd iechyd lleol;
- Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol o bob awdurdod lleol;
- Rhywun sy'n cynrychioli'r bwrdd iechyd lleol;
- O leiaf un person i gynrychioli pobl ag anghenion gofal a chymorth;
- O leiaf un person i gynrychioli gofawyr;
- O leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal; a

Atodiad

- Dau berson sy'n cynrychioli buddiannau'r trydydd sector (un yn cynrychioli sefydliadau lleol yn y trydydd sector ac un yn cynrychioli sefydliadau cenedlaethol yn y trydydd sector).

Gall byrddau partneriaeth rhanbarthol gyfethol pobl eraill i fod yn aelodau fel y bo'n briodol.

Mae'r Rheoliadau Partneriaeth yn cynnwys gofynion i bartneriaid sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun. Yn benodol, dywed rheoliad 19(1)(a), "Mae'n ofynnol i gyrff partneriaeth pob un o'r trefniadau partneriaeth sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau llety cartref gofal." Dechreuodd y gofyniad hwn ym mis Ebrill 2018.

Mae'r Rheoliadau Asesiadau Poblogaeth yn nodi trefniadau partneriaeth ar gyfer asesiadau poblogaeth o anghenion gofal a chymorth, sy'n ofynnol o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

Y Cynnig

Diben y diwygiadau a gynigwyd ac a osodwyd yn yr ymgynghoriad oedd:-

- Newid y partneriaid a gaiff eu cynnwys yn ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf a Bae'r Gorllewin i ystyried y newid i ffiniau byrddau iechyd Abertawe Bro Morgannwg a Chwm Taf;
- Egluro'r gofynion i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cronfeydd cyfun yn gysylltiedig â llety cartref gofal i bobl hŷn;
- Ei gwneud yn ofynnol cael rhywun sy'n cynrychioli'r sector tai ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol;
- Ei gwneud yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio strategaethau comisiynu rhanbarthol yn gysylltiedig â chartrefi gofal i bobl hŷn; ac
- Egluro erbyn pryd y mae'n rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio adroddiadau blynyddol.

Fe wnaethom ni hefyd geisio eich barn ar y dull arfaethedig o ddiwygio Canllawiau Statudol Rhan 9 i ystyried y newidiadau i'r rheoliadau a nodir uchod. Rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau diwygiedig erbyn mis Ebrill 2019, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau pellach â rhanddeiliaid.

Ymgynghoriad

Roedd Rheoliadau Drafft Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2019 ("Y Rheoliadau Diwygio") a'r dull arfaethedig o ddiwygio Canllawiau Statudol Rhan 9 i ystyried y newidiadau i'r rheoliadau yn destun ymgynghoriad ffurfiol dros gyfnod o wyth wythnos rhwng 31 Awst a 26 Hydref 2018.

Atodiad

Cawsom 44 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth eang o sefydliadau statudol, grwpiau'r trydydd sector a chyrrff proffesiynol o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Roedd hyn yn cynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol unigol; y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a nifer o gymdeithasau tai.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y newidiadau yn gysylltiedig â ffiniau'r byrddau iechyd rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2018. Mae'r newidiadau arfaethedig yn gysylltiedig â chronfeydd cyfun a chynrychiolaeth o'r sector tai wedi eu trafod ag ystod eang o randdeiliaid.

Yn gyffredinol roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol ond roeddent yn nodi rhai pryderon adeiladol o ran y cynigion. Mae'r adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad hwn, sy'n nodi manylion yr ymatebion i bob cwestiwn ac ymateb Llywodraeth Cymru, wedi ei gyhoeddi yn y lleoliad hwn:-

<https://beta.llyw.cymru/diwygio-rheoliadau-partneriaeth-o-dan-ran-9-or-ddeddf>

Crynodeb o'r cwestiynau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1

	1. A ydych yn cytuno bod y gofyniad bod yn rhaid i gronfeydd cyfun gael eu sefydlu'n rhanbarthol rhwng bwrdd iechyd a phob awdurdod lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw yn glir?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
Cyfanswm -	16	11	1	3	13

Crynodeb

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y gofyniad bod yn rhaid i gronfeydd cyfun gael eu sefydlu'n rhanbarthol rhwng bwrdd iechyd a phob awdurdod lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw yn glir.

Roedd y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cynrychioli cymysgedd o ymatebion 'cytuno' a 'tueddu i gytuno', ac roedd y sylwadau yn cydnabod ei bod yn synhwyrol i'r canllawiau diwygiedig gynnig mwy o eglurder ynghylch dull gweithredu cronfeydd cyfun. Er hynny, roedd rhai yn amlygu pryderon ynghylch pa mor ymarferol oedd y dull gweithredu a'r perygl i un awdurdod roi cymhorthdal i weithgareddau un arall. Er enghraifft, roedd un bwrdd rhanbarthol yn croesawu'r eglurhad bod y gofyniad yn ymwneud â swyddogaethau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn unig, ond roeddent yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd yr ymgynghoriad yn datrys pryderon yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn rhoi cymhorthdal i'w gilydd neu'r gwahaniaethau cynhenid a achosir gan fod cleifion y GIG yn cael gofal am ddim ond bod tâl yn cael ei godi am ofal Gwasanaethau Cymdeithasol.

Croesawodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y gofyniad i greu cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal, gan ychwanegu bod yn rhaid i'r broses o gomisiynu llety cartrefi gofal ar y cyd fod ynghlwm wrth ddull gweithredu integredig o fonitro contract gan y comisiynwyr a chyrrff rheoleiddio.

Roedd sefydliadau eraill a oedd yn nodi'r ymateb 'tueddu i gytuno' yn cynnwys Fforwm Gofal Cymru a nifer o sefydliadau'r trydydd sector megis y WCVA, a oedd yn cydnabod bod y

Atodiad

gofyniad yn gymharol glir ac roeddent yn teimlo bod y ffaith nad oedd y rheoliad yn atal cronfeydd cyfun ar gyfer agweddau eraill ar iechyd a gofal cymdeithasol o gymorth mawr.

Roedd y rhai hynny a oedd yn cytuno yn anad dim yn nodi barn sefydliadau'r trydydd sector, a oedd yn ail-adrodd pryderon ynghylch yr annhegwch o ran cyllidebau a dosbarthu cyllidebau byrddau partneriaeth rhanbarthol. Roedd Arolygiaeth Gofal Cymru yn cytuno ond yn nodi bod angen gofal ynghylch cymhlethdod rhoi'r dull gweithredu ar waith. Cadarnhaodd Confederasiwn GIG Cymru mai barn ei aelodau oedd y dylid cynnwys pob partner statudol.

Roedd CLILC yn anghytuno gan amlygu na chafodd Arweinyddion y Cyngor nac Aelodau Cabinet eu darbwylo mai hwn oedd y dull gweithredu gorau. Fe wnaethon nhw awgrymu bod angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran y lefel pan gaiff cronfeydd cyfun eu sefydlu fel y gall ardaloedd a rhanbarthau wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau orau gan alluogi cronfeydd cyfun i ehangu ar y raddfa a'r cyflymder sydd orau iddyn nhw.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yr ymgynghoriad yn cytuno bod y gofyniad bod yn rhaid i gronfeydd cyfun gael eu sefydlu'n rhanbarthol rhwng bwrdd iechyd a phob awdurdod lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw yn glir.

Rydym ni'n cydnabod bod rhai ymatebion hefyd yn nodi pryderon ynghylch cymhlethdod rhoi cronfeydd cyfun rhanbarthol ar waith.

I helpu cefnogi'r dull gweithredu hwn, rydym wedi gofyn i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ddatblygu rhai dulliau cefnogi ymarferol erbyn mis Ebrill 2019, o ran sut y dylai cronfa gyfun ranbarthol weithredu.

Bydd hyn yn mynd i'r afael â phryderon penodol a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn, e.e. rhestr o gwestiynau ymarferol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a rhestr o risgiau gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

Mae llywodraeth Cymru yn glir bod cronfeydd cyfun yn elfen hanfodol o drefniadau comisiynu integredig a chydweithredol. Byddant yn caniatáu i gronfeydd cyhoeddus gael eu defnyddio ar y cyd i wella canlyniadau a chyflawni gwell gwerth am arian drwy gydweithrediad ac arbedion maint. Gellir cyflawni hyn â chronfeydd cyfun rhanbarthol yn hytrach na rhai lleol.

Mae'n rhaid i gronfeydd cyfun gael eu gweithredu a'u llywodraethu'n rhanbarthol. Dylai penderfyniadau y gellir eu gwneud yn rhanbarthol er mwyn cyflawni gwell arbedion maint a gwerth gael eu gwneud yn rhanbarthol. Rydym yn rhagweld y bydd gan bob rhanbarth gynllun dirprwyo ar waith i alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud yn lleol ar gyfer anghenion comisiynu. Dyma gyd-destun y gofyniad am drefniadau comisiynu integredig.

Comisiynwyd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru i adolygu deunydd darllen, i asesu manteision posibl cronfeydd cyfun rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau iechyd. Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn a ddysgwyd ynghylch ffactorau allweddol, a all wneud trefniadau cronfeydd cyfun yn llwyddiannus wrth helpu i sicrhau gwell canlyniadau iechyd, gofal a llesiant. Mae'r adroddiad ar gael yma:

<https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Better-Outcomes-through-Pooled-Funds.html>

Atodiad

Cwestiwn 2

	2. A yw'r gofyniad y dylai cronfa gyfun fod yn gymwys i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn glir?		
	Ydy	Nac ydy	Heb nodi
Cyfanswm -	27	3	14

Crynodeb

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno ei bod hi'n glir y dylai cronfa gyfun fod yn gymwys i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn. Cadarnhaodd nifer o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol fod y gofyniad yn glir a bod y diwygiad a gynigir yn galluogi rhoi mwy o bwyslais ar sefydlu a chydgrynhoi trefniadau presennol a bod yr eglurdeb i'w groesawu ac y byddai'n hybu cysondeb rhanbarthol.

Cadarnhaodd Confederasiwn GIG Cymru fod y gofyniad yn glir ac y byddai'r diwygiadau a gynigir yn galluogi Byrddau Iechyd i ganolbwyntio ar sefydlu a chydgrynhoi'r trefniadau presennol ar gyfer pobl hŷn yn eu hardal.

Cytunodd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod y gofyniad yn glir ond dywedodd ei bod yn teimlo nad oedd yr ymgynghoriad yn egluro'r penderfyniad i gyfyngu'r cyfeiriad at gartrefi gofal i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn, ac roedd o'r farn bod y penderfyniad yn un a oedd yn groes i'r dyheadau am 'Gymru Iachach'.

Roedd un awdurdod lleol o'r farn fod y sail resymegol dros wneud y system cronfeydd cyfun yn gymwys i gartrefi gofal yn aneglur yn gyffredinol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Atodiad

O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), ni cheir diffiniad o gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn; dim ond “cartrefi gofal”, a phob un â datganiad o ddiben. Rydym yn cydnabod bod gan rai cartrefi gofal gymysgedd o bobl ag anghenion gwahanol e.e. pobl hŷn, oedolion ag anableddau dysgu, ac ati. Felly, fe fyddwn yn newid y rheoliadau i wneud hi'n glir mai'r gofyniad lleiaf yma yw bod yn rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cronfa gyfun ranbarthol ar gyfer lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn (h.y. y lleoedd yn y cartref gofal yn hytrach na'r cartref gofal). Rydym hefyd yn dal yn awyddus i egluro nad yw'r gofyniad hwn yn rhwystro byrddau partneriaeth rhanbarthol rhag sefydlu cronfeydd cyfun ehangach os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Atodiad Cwestiwn 3

	3: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o bobl hŷn mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn, sef pobl 60 oed a throsodd?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
Cyfanswm -	7	13	7	6	11

Crynodeb

Roedd yr ymatebion yn gymysg, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno, ond roedd nifer sylweddol yn anghytuno. Er gwaethaf hyn, roedd y sylwadau a gafwyd yn debyg. Yn anad dim, mae'r ymatebion yn amlygu'r ffaith bod nifer o wahanol gyfeiriadau yn cael eu defnyddio i ddiffinio'r boblogaeth hŷn yng Nghymru.

Roedd Age Cymru yn gefnogol i'r gofyniad sylfaenol hwn yn y rheoliadau gyda dim yn rhwystro byrddau partneriaeth rhanbarthol rhag comisiynu lleoedd mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl iau na 60 pe byddai eu hangen. Roedd yn nodi hefyd bod canllawiau ar gyfer y rheoliadau yn cynnwys disgwyliad y bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn gwneud hynny.

Roedd y Comisiynydd Pobl Hŷn, gan gydnabod bod y diffiniad 60 oed yn gydnaws â Deddf y Comisiynydd, yn amlygu mai diffiniad oed Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru, a'r un a ddefnyddir gan y sector tai yw 50. Roedd y Comisiynydd hefyd yn amlygu'r angen i weithredu dull hyblyg pe byddai diffiniad oed penodol yn cael ei gytuno, yn sgil amgylchiadau arbennig, megis dementia cynnar posibl.

Fe gyfeiriodd y Comisiynydd at Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gan ddatgan bod y Ddeddf yn cadarnhau y bydd unigolyn yn symud i ofal preswyl oherwydd bod ei anghenion wedi newid yn hytrach na phennu ystod oedran.

Awgrymodd nifer o fyrddau partneriaeth rhanbarthol y byddai'n well ganddynt ddiffiniad oedran o 65 a hŷn a bod y cynnydd presennol o ran cronfeydd cyfun ar gyfer pobl hŷn ar sail hon. Roedd awdurdodau lleol eisoes yn adrodd gwybodaeth ariannol i Lywodraeth Cymru yn yr Alldro Refeniw, gan ddefnyddio diffiniad o 65 a hŷn. Roedd hyn hefyd yn gydnaws â chategorïau yn null amcanestyniad data, Daffodil Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nododd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad broblemau posibl ynghylch y diffiniad o bobl hŷn yn y Rheoliadau Diwygio. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig 60 oed i fod yn gydnaws â chylch gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn. Serch hynny, mae awdurdodau lleol eisoes yn cyflwyno gwybodaeth ariannol yn ymwneud â phobl 65 oed a hŷn ac mae'r rhan fwyaf o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol yn gweithio yn unol â'r maen prawf hwn o ran y cronfeydd cyfun y maen nhw'n eu datblygu. Er mwyn cefnogi rhanbarthau i weithredu cronfeydd cyfun yn ymarferol rydym yn teimlo y byddai'r dosbarth oedran hwn yn fwy priodol. Felly caiff y rheoliadau eu newid er mwyn diffinio pobl hŷn yn bobl 65 oed a hŷn, at ddibenion cronfeydd cyfun ar gyfer lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Ni fydd y geiriad yn y Rheoliadau Diwygio yn rhwystro byrddau partneriaeth rhanbarthol rhag sefydlu cronfeydd cyfun ar gyfer pobl o dan 65 oed.

Atodiad

Cwestiwn 4

	4. A yw'r gofyniad am strategaethau comisiynu rhanbarthol, a'r ffordd y mae'n gysylltiedig â'r gronfa gyfun, yn glir?		
	Ydy	Nac ydy	Heb nodi
Cyfanswm -	23	8	13

Crynodeb

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno bod y gofyniad yn glir. Serch hynny, fe amlygodd nifer o ymatebion yr angen i egluro sut y byddai strategaeth gomisiynu yn gorgyffwrdd ag asesiad poblogaeth, cynllun ardal, datganiadau o sefyllfa'r farchnad, ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad sydd ar fin ymddangos. Amlygwyd hefyd yr angen i ystyried capasiti byrddau partneriaeth rhanbarthol o ran datblygu strategaeth gomisiynu ranbarthol.

Croesawodd Cymorth Cymru yr ymroddiad parhaus i gynlluniau comisiynu rhanbarthol gan gadarnhau eu bod yn gweld hyn yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau tai, gofal ac iechyd yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.

Roedd y Comisiynydd Pobl Hŷn o'r farn ei bod yn glir o ran cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn, ond nid oedd mor glir ynghylch pa un a oes angen strategaeth gomisiynu yn gysylltiedig â chreu cronfeydd cyfun wrth weithredu swyddogaethau cymorth i deuluoedd y mae byrddau partneriaeth yn dymuno eu creu. Awgrymwyd cynnwys cyfarwyddiadau mwy manwl neu ganllawiau ar wahân ynghylch ffurf comisiynu rhanbarthol cadarn o ran asesiadau poblogaeth, datganiadau o sefyllfa'r farchnad ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

Nodwyd sylwadau eraill gan gynrychiolwyr y trydydd sector gan gynnwys yr angen i ystyried sut y gallai gwasanaethau yn y gymuned elwa: Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sut byddai cronfeydd cyfun rhanbarthol a strategaethau comisiynu rhanbarthol yn cyd-fynd ag adran 16 o'r Ddeddf a hybu modelau amgen a'r trydydd sector, gan ddatgan y gall comisiynu a chaffael ymddangos fel petaent yn ffafrio darparwyr mawr.

Amlygodd CLILC nifer y cynlluniau a strategaethau y mae'n ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol eu darparu a'r capasiti i gynhyrchu'r rhain a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er bod rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar gyfer strategaethau comisiynu rhanbarthol, cafwyd nifer o gwestiynau ynghylch eu cynnwys a sut y byddent yn cysylltu â gofynion eraill i fyrddau partneriaeth rhanbarthol gynhyrchu asesiadau poblogaeth, cynlluniau ardal ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Yn ddiweddarach eleni bydd llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch trefniadau newydd i wneud y gofynion hyn i gyd yn gydnaws. Felly rydym wedi dileu'r gofyniad am strategaethau comisiynu yn y Rheoliadau Diwygio er mwyn inni ystyried sut y gellid eu cynnwys o bosib yn y fframwaith ehangach.

Yn sgil yr ystyriaethau hyn, mae'r cynnig ynghylch strategaethau comisiynu rhanbarthol wedi ei ddileu o'r Rheoliadau Diwygio. I gydnabod mai bwriad y strategaethau comisiynu

Atodiad

rhanbarthol oedd llywio'r gronfa gyfun, mae'r Rheoliadau Diwygio yn nodi yn hytrach ei bod yn rhaid i bartneriaid roi cyfraniadau digonol i'r gronfa gyfun er mwyn talu'r costau a ragwelir ar gyfer lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn y rhanbarth.

Serch hynny, caiff byrddau partneriaeth rhanbarthol gynhyrchu strategaethau comisiynu rhanbarthol i lywio cronfeydd cyfun pe byddent yn penderfynu y byddai hynny o fudd.

Cwestiwn 5

	5. A ydych yn cytuno y dylai'r gofyniad am strategaethau comisiynu rhanbarthol ddechrau ym mis Ebrill 2020?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
Cyfanswm -	13	12	5	0	14

Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion ynghylch y cwestiwn hwn wedi eu lleoli rhwng 'cytuno' a 'tueddu i gytuno' – gyda phedwar yn unig rhwng 'tueddu i anghytuno' ac 'anghytuno'.

Mae nifer o sylwadau yn awgrymu y byddai strategaethau comisiynu rhanbarthol yn gofyn am ddull o weithredu ystyriol a chydgyssylltiedig ac y byddai angen amser i wneud hyn mewn modd effeithiol. Mae rhywfaint o'r ymateb yn adlewyrchu'r hyn a gafwyd ar gyfer Cwestiwn 4.

Cytunodd Conffederasiwn GIG Cymru gan nodi hefyd y gallai'r amser ddibynnu ar nifer y partneriaid yn ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol benodol. Roeddent yn cydnabod, yn sgil y broses hon, y byddai angen adolygu a chydgyssylltu y trefniadau comisiynu lleol presennol gan gynnwys termau contract, trefniadau monitro a swyddogaethau arwain wedi'u cytuno. Roedd Fforwm Gofal Cymru yn cytuno bod yr amserlen yn realistig.

Roedd y rhan fwyaf o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cytuno ar y dyddiad cychwyn. Er hynny, cafwyd pryderon yn debyg i'r hyn a gafwyd yng Nghwestiwn 4 ynghylch sut y byddai'r strategaethau hyn yn rhyngweithio gyda'r fframwaith asesiadau poblogaeth a chynllunio ehangach.

O'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd y sylwadau yn nodi angen am fwy o eglurdeb o ran bod y gofyn am strategaeth gomisiynu yn berthnasol i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn unig, ond nad yw'n rhwystro rhanbarthau rhag datblygu strategaethau comisiynu ar gyfer meysydd polisi ehangach.

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn tueddu i anghytuno gan egluro'r anawsterau y byddent yn eu hwynebu wrth geisio bod yn barod mewn pryd ar gyfer y dyddiad cychwyn yn sgil y ffaith y bydd eu cyngor mewn cytundeb rhanbarthol newydd o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Atodiad

Fel yr eglurwyd yng Nghwestiwn 4, cafodd y gofynion am strategaethau comisiynu rhanbarthol eu dileu o'r Rheoliadau Diwygio.

Cwestiwn 6

	6. A ydych o'r farn bod nifer arfaethedig y cynrychiolwyr o'r sector tai yn briodol a bod y cynrychiolwyr hynny o'r sefydliadau cywir?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
Cyfanswm -	11	10	10	1	12

Crynodeb

Ar y cyfan cafwyd cefnogaeth ddidwyll ar gyfer cynnwys cynrychiolydd o'r sector tai; er hynny roedd nifer o ymatebion yn nodi pryderon o ran sicrhau bod y cynrychiolwyr yn cynrychioli'r sector yn briodol. Amlinellodd rhai ymatebwyr bryderon y byddai aelodau ychwanegol yn golygu y byddai maint y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn ei gwneud hi'n anos i'w rheoli.

Roedd ymatebion byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cefnogi'r egwyddor o gynnwys cynrychiolydd o'r sector tai, ond yn cynnwys rhai pryderon ynghylch ymarferoldeb ychwanegu aelodau at y bwrdd. Cafwyd awgrym y dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol benderfynu ar gynrychiolaeth yn lleol, gan gydnabod yr angen i gynnwys safbwyntiau a chyfraniadau Llywodraeth Leol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Roedd rhai o'r farn y byddai dau gynrychiolydd o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn anghymesur o ystyried yr ystod ehangach o wasanaethau a buddiannau megis hamdden a fyddai o bosib angen cynrychiolwyr bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo hefyd y dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol gael hyblygrwydd i benderfynu ar nifer y cynrychiolwyr o'r sector tai.

Fe nododd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys bryderon ynghylch maint y byrddau partneriaeth rhanbarthol a pha mor hawdd y byddai hi i'w rheoli nhw. Fe wnaethon nhw amlygu y byddai'n anochel y byddai angen trafod tai/llety ar lefel is-grŵp ac fe awgrymodd y dylid ystyried cynrychiolaeth ar y lefel honno. Amlygodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys hefyd y perygl posibl y byddai argraff yn cael ei greu bod gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y byrddau partneriaeth rhanbarthol fantais fasnachol annheg drwy'r broses hon.

Cefnogodd CLILC gynrychiolaeth o'r sector tai ond awgrymodd bod y pwysoliad o 1:2 o ran cymharu awdurdod lleol â chynrychiolwyr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o chwith.

Roedd sylwadau eraill yn datgan y dylai'r sector tai preifat gael ei gynrychioli ac y byddai cynrychiolwyr tai o fudd wrth ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig yn y dyfodol

Ymateb Llywodraeth Cymru

Atodiad

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi cael cynrychiolaeth o'r sector tai ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylai llywodraeth leol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael eu cynrychioli hefyd. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch nifer y cynrychiolwyr, a phryderon ynghylch cael gormod o aelodau ar fyrddau rhanbarthol a'r cydbwysedd rhwng y sectorau hyn. Roedd rhai yn dymuno gweld mwy o hyblygrwydd ar gyfer byrddau rhanbarthol. Am y rhesymau hyn byddwn yn cadw'r gofyniad i fod ag o leiaf un cynrychiolydd o sector tai'r awdurdod lleol, ond bydd angen o leiaf un cynrychiolydd o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig arnom yn hytrach na dau. Dyma'r gofyniad sylfaenol a bydd byrddau rhanbarthol yn parhau i allu ychwanegu aelodau gan ddibynnu ar flaenoriaethau ac anghenion y rhanbarth. Byddwn hefyd yn ystyried diwygio Canllawiau Rhan 9, gan gynnwys ychwanegu'r argymhelliad i sefydlu is-grwpiau yn ymdrin ag atebion ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol dan arweiniad tai a llety .

Cwestiwn 7

	7. A ydych yn cytuno â'r cynnig i egluro yn y rheoliadau y bydd adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol yn ofynnol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn?				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb nodi
Cyfanswm -	22	8	1	0	13

Crynodeb

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â'r cynnig hwn.

Roedd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn croesawu'r gofyniad ac awgrymodd y byddai'n syniad da hefyd pe byddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i adroddiadau blynyddol y cyfarwyddwyr.

Roedd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cefnogi'r gofyniad ac ychwanegodd y dylai adroddiadau nodi'r gwaith a wnaethpwyd gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol wrth ymateb i asesiadau poblogaeth o ran trefniadau partneriaid, cronfeydd cyfun ac o ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ymwneud ag eiriolaeth a Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) Cytunodd y byrddau partneriaid rhanbarthol a ymatebodd â'r gofyniad. Ystyriwyd y dyddiad cau ar gyfer adrodd yn ddefnyddiol a synhwyrol gan ganiatáu amser digonol i adolygu gwaith. Cynigwyd i wneud adroddiad blynyddol y Cynllun Ardal yn rhan o adroddiad blynyddol y bwrdd partneriaid rhanbarthol a nodwyd pryderon ynghylch dyblygu posibl o'r adrodd rhwng adroddiad blynyddol y gronfa gofal integredig ac adroddiad blynyddol y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

Dywedodd un o'r awdurdodau lleol fod y dyddiad cau yn dynn o ran cynnwys yr holl wybodaeth ariannol sy'n ofynnol, gan amlygu'r ffaith y bydd gwaith y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn casglu gwybodaeth ariannol yn cynyddu wrth i agenda'r byrddau partneriaeth rhanbarthol gynyddu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ganlyniad i gefnogaeth aruthrol yr ymatebwyr, bydd y diwygiad hwn yn aros fel y mae.

Cwestiwn 8

Atodiad

8. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i ganllawiau Rhan 9?

Crynodeb

Gwnaeth 27 o'r 44 o ymatebion achub ar y cyfle i wneud sylw ar y canllawiau arfaethedig. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion at aelodaeth y byrddau partneriaeth rhanbarthol, y broses o recriwtio aelodau, a chydaddoldeb rhwng cyrff statudol, darparwyr, y trydydd sector, gofalwyr ac ati ar y bwrdd. Hefyd fe wnaeth nifer o'r ymatebion sylw o'r ffaith bod y cynnig o fewn y diwygiad hwn yn ymwneud â sefydlu cronfeydd cyfun yn rhanbarthol rhwng bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol o fewn ardal y bwrdd iechyd; er hynny nodwyd bod arfer yn mynd y tu hwnt i'r sectorau hynny, er enghraifft y sector addysg.

Cyfeiriodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Chomisiynydd Pobl Hŷn at bryderon ynghylch aelodaeth byrddau partneriaeth rhanbarthol. Roeddent yn mynegi pryder ynglŷn â'r term 'cynrychioli' o ran yr aelodau hynny y disgwylir iddynt gynrychioli gofal a chymorth ac aelodau'r trydydd sector yn cynrychioli'r trydydd sector. Codwyd y pwynt nad yw'r aelodau hyn yn gallu cynrychioli pob defnyddiwr yn llawn na'r trydydd sector cyfan.

Soniodd y Comisiynydd Pobl Hŷn am anghysondebau rhwng byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r ffaith y gallai gwaith gael ei wneud ar lefel is-grwpiau. Roedd hyn yn gwneud i rai aelodau o fyrddau partneriaeth rhanbarthol deimlo eu bod wedi'u hymddieithrio. Amlygodd y Comisiynydd Pobl Hŷn bwysigrwydd cefnogi pob aelod o fyrddau partneriaeth rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod o'r farn eu bod yn rhan lawn o'r broses.

Roedd y Comisiynydd Plant o'r farn bod yr ymgynghoriad wedi colli'r cyfle i ffurfioli'r broses lywodraethu rhwng byrddau partneriaeth rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cafwyd tri phrif argymhelliad gan y Comisiynydd Plant:-

- Dylai fod yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu strwythurau cynllunio aml-asiantaeth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc..
- Dylai fod yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol integreiddio gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd i ymateb i anghenion cymhleth eu poblogaeth leol o blant a phobl ifanc.
- Byddai creu dyletswydd statudol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gydnaws â thirwedd bresennol y polisi, yn enwedig yr uchelgais 'iechyd a gofal cymdeithasol lleol di-dor' fel y nodir yn Cymru Iachach.

Awgrymodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin y dylid ychwanegu cynrychiolydd Addysg at y byrddau partneriaeth rhanbarthol gan fod Partneriaid Addysg yn gyffredinol yn chwarae rhan yn y gwaith gyda Phlant a Phobl Ifanc yn unol â Chynlluniau Ardal a'r Gronfa Gofal Integredig?

Cynigiodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru bod angen adolygu Pennod 3 o Ganllawiau Rhan 9 o ran swyddogaeth a dyletswydd byrddau partneriaeth rhanbarthol (16-25) i sicrhau eu bod yn nodi swyddogaeth byrddau yn y dyfodol a'r gofyniad iddynt ryngweithio â fforymau eraill ar lefel genedlaethol, ranbarthol ac isranbarthol fel y nodir yn 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal'.

Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru nad oedd y canllawiau arfaethedig yn gwerthuso nac yn ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb a hawliau dynol ac roeddent o'r farn y gellid cyflawni hyn drwy weithio'n agosach gyda Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG. Dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru y dylai aelodaeth byrddau partneriaeth

Atodiad

rhanbarthol adlewyrchu amrywiaeth megis pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a chydbwysedd rhwng y rhywiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn ddiolchgar iawn am y sylwadau defnyddiol o ran Canllawiau Adran 9. Byddwn yn ystyried y sylwadau hyn i gyd wrth inni adolygu'r canllawiau.

O ran rhai o'r sylwadau penodol:

Gan ymateb i'r sylwadau am y gefnogaeth i aelodau anstatudol byrddau partneriaeth rhanbarthol - Byddwn yn parhau i weithio gyda'r trydydd sector, dinasyddion, gofalwyr ac ati i ystyried sut y gallwn ni gefnogi eu cyfraniad at fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn well. Rydym eisoes yn ystyried sut y gallwn ni gefnogi aelodau'r byrddau yn well ac rydym wedi ymgysylltu â Chynghrair Cynhalwyr Cymru i ddeall a datblygu'r dull gorau o gefnogi cynrychiolwyr y maes gofal ar y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn y dyfodol. Drwy ddatblygu model ar gyfer cefnogaeth i ofalwyr rydym yn gobeithio y gellir defnyddio/addasu hyn i gefnogi aelodau eraill o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol megis cynrychiolwyr dinasyddion.

Roedd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn pwysleisio'r farn bod angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol roi pwyslais cryfach ar blant a phobl ifanc yn y dyfodol ac y byddai cynrychiolaeth o faes addysg ar y byrddau rhanbarthol yn cryfhau hyn. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn, sy'n amserol iawn o ystyried y penderfyniad gan Weinidogion i ddyfarnu cyllid ychwanegol o £15m yn 2019/20 o dan Y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i blant a'u teuluoedd. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn gyda chydweithwyr Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru a cheisio barn rhanddeiliaid yn y sector addysg. **Rydym wedi cytuno y byddwn yn diwygio'r rheoliadau er mwyn i bob un o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol fod ag o leiaf un cynrychiolydd addysg awdurdod lleol.** Byddai'r unigolyn hwn yn rhoi ei safbwynt ei hun ynghylch gwella canlyniadau llesiant plant ag anghenion gofal a chymorth, neu ar ffiniau gofal.

I gryfhau'r cysylltiadau rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a byrddau partneriaeth rhanbarthol, rydym wedi comisiynu Gofal Cymdeithasol Cymru i ddadansoddi'r hyn sy'n gyffredin rhwng cynlluniau ardal a chynlluniau llesiant a byddwn yn trefnu digwyddiad ym mis Mawrth 2019 i ddod ag aelodau'r ddau fwrdd ynghyd i ddeall yn well ac i gefnogi eu cydberthynas.

Er mwyn ymdrin â'r ymateb o ran yr effeithiau ar gydraddoldeb a hawliau dynol, rydym yn bwriadu adolygu Canllawiau Rhan 9 i helpu sicrhau bod y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn adlewyrchu aelodaeth amrywiol.

Cwestiwn 9

Atodiad

9. Hoffem wybod eich barn ar yr effaith y byddai'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Partneriaeth yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Crynodeb

Cafwyd 18 o sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd y sylwadau yn cydnabod bod y gofyniad am strategaethau comisiynu rhanbarthol yn cynnig mwy o gyfle i bartneriaid gynllunio a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal. Nodwyd y byddai'n rhaid i'r strategaethau hyn fod yn unol â fframwaith 'Mwy na Geiriau...' Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Dywedodd Cyngor Gwynedd y gallai gwneud penderfyniadau'n rhanbarthol yn hytrach nag yn lleol leihau'r cyfleoedd i bobl a staff ddefnyddio'r Gymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd eisoes yn yr ymateb i gwestiynau 4 a 5, ni fyddwn yn gofyn am strategaethau comisiynu rhanbarthol yn y Rheoliadau ar hyn o bryd. Er hynny, fel y trafodwyd, byddwn yn ystyried strategaethau comisiynu rhanbarthol yn rhan o adolygiad ehangach o'r asesiad poblogaeth a'r broses gynllunio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

O ran y sylw ar wneud penderfyniadau'n rhanbarthol, byddwn yn parhau i asesu effeithiau cydweithio ac integreiddio rhanbarthol, gan gynnwys yr effaith ar y Gymraeg.

Cwestiwn 10

10. Esboniwch sut y gellid ffurfio neu newid y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Partneriaeth er mwyn arwain at effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb

Cafwyd deg sylw ar y cwestiwn hwn, y mwyafrif yn dod o fyrddau partneriaeth rhanbarthol.

Roedd sylwadau yn cydnabod y byddai Comisiynu Rhanbarthol yn cefnogi dull o weithredu mwy cyson ar gyfer datblygu gwasanaeth gan gynnwys darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, a allai arbed arian drwy rannu adnoddau.

Nododd un o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol y byddai'n rhaid cael adrannau yn yr amodau contract a gytunwyd ar draws pob asiantaeth yn ymwneud â'r Gymraeg ac i egluro'r gofynion o dan Safonau'r Gymraeg.

Cynigwyd hefyd y gallai Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol ystyried buddsoddi mewn hyfforddiant yn y Gymraeg yn y gweithle a sut y gallai hyn wneud gwahaniaeth o fewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Atodiad

Er na chyfeiriwyd at unrhyw argymhellion penodol o ran y diwygiadau i'r Rheoliadau Partneriaeth, byddwn yn ystyried eto'r awgrymiadau eraill, gan gynnwys buddsoddi mewn hyfforddiant yn y Gymraeg.

Cwestiwn 11

11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Crynodeb

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a gwelir crynodeb ohonynt isod:-

Roedd awdurdod lleol Conwy a bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn rhannu nifer o ystyriaethau penodol yn ymwneud ag ymarferoldeb cronfeydd cyfun. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyfrifo cyfraniadau i gronfeydd cyfun;
- sut y byddai gorwariant posibl neu gyfraniadau annigonol yn cael eu rheoli,
- y posibilrwydd y byddai un awdurdod yn rhoi cymhorthdal i weithgareddau un arall;
- pryder o ran datblygiad sefydliadol a datblygiad gweithlu; ac
- effeithiau posibl ar sefydlogrwydd y farchnad, pan fyddai angen cynllunio newidiadau i'r system yn ofalus o bosibl i osgoi effeithiau negyddol ar y farchnad.

Amlygodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru'r angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dementia yn cael ei ystyried i sicrhau bod y gofal gorau posibl yn cael ei roi i'r rhai hynny y mae'r cronfeydd cyfun yno i'w helpu.

Tynnodd Cyngor 3ydd Sector Caerdydd sylw at y ffaith fod pwysigrwydd Gwerth Cymdeithasol yn brin o ran Gweithio mewn Partneriaeth a bod rhaid ymdrin â hyn o ystyried pwysigrwydd Gwerth Cymdeithasol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r angen i bob rhanbarth gael Fforwm Gwerth Cymdeithasol.

Roedd nifer o'r ymatebion yn cyfeirio at y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Cafwyd manylion barn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru ar adolygiadau yr hoffent gael eu hystyried ar gyfer pennod 8 o ganllawiau statudol Rhan 9 (trefniadau partneriaeth) yn gysylltiedig â swyddogaeth byrddau partneriaeth rhanbarthol a gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er mwyn ymdrin â rhai o'r pryderon ymarferol a nodwyd o ran cronfeydd cyfun, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ddatblygu cyfres o ddulliau gweithredu a llwybrau gweithredol i gefnogi partneriaethau rhanbarthol i reoli a defnyddio cronfeydd cyfun.

Rydym yn cadarnhau bod cefnogi pobl â dementia mewn cartrefi gofal yn rhan o gynllun gweithredu ar gyfer dementia Llywodraeth Cymru a byddai'r £9 miliwn o gyllid ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol yn 2019/20 yn gymwys i gefnogi'r gwaith hwn.

Byddwn yn ystyried y diwygiadau a gynigir ar gyfer Pennod 8 o ganllawiau statudol Rhan 9 (trefniadau partneriaeth) o ran swyddogaeth byrddau partneriaeth rhanbarthol a gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd.

Rydym yn cydnabod yr adborth a gawsom yn ymwneud â phwysigrwydd hanfodol Gwerth

Atodiad

Cymdeithasol i weithio mewn partneriaeth a byddwn yn ystyried cryfhau cyfeiriadau at werth cymdeithasol yn y canllawiau, er mwyn annog a hybu'r dull hwnnw fel y nodwyd drwy egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

CRYNODEB O'R NEWIDIADAU I'R RHEOLIADAU DIWYGIO YN DILYN YR YMGYNGHORIAD

Newidiadau i enwau byrddau iechyd a byrddau partneriaeth rhanbarthol

Caiff y rheoliadau eu diwygio i nodi'r newidiadau canlynol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (diwygiwyd drwy ddeddfwriaeth ar wahân).

Bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn newid i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf yn newid i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.

Diffinio oedran ar gyfer lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal

Wrth ymateb i farn yr ymgynghoriad cytunwyd i ddiwygio'r rheoliadau i nodi mai diffiniad pobl hŷn fydd 65 neu'n hŷn (yn hytrach na 60 neu'n hŷn), at ddibenion cronfeydd cyfun ar gyfer lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn.

Strategaethau Comisiynu Rhanbarthol

Yn sgil ystyried barn yr ymgynghoriad, byddwn yn dileu gofynion am strategaethau comisiynu rhanbarthol o'r Rheoliadau Diwygio.

Cynrychiolwyr tai ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol

Llywiodd barn yr ymgynghoriad y penderfyniad i gadw'r gofyniad am o leiaf un cynrychiolydd tai awdurdod lleol a'r gofyniad am o leiaf un cynrychiolydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (yn hytrach na dau).

Cynrychiolydd addysg ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol

Roedd safbwyntiau'r ymgynghoriad yn cefnogi'r angen i'r sector addysg gael ei gynrychioli ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol. Fel ymateb i hyn bydd y rheoliadau yn cael eu diwygio i gynnwys y gofyniad am o leiaf un uwch swyddog awdurdod lleol â chyfrifoldeb dros addysg.

Atodiad

Ymatebion i'r ymgynghoriad

R1 — **Mirus wales**

R2 - - **Grŵp Tai pennaf**

R3 – **Imants Privacy**

R4 — **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys**

R5 — **Linc Cymru**

R6 –, **Grwp Cynefin**

R7– **Arolygiaeth Gofal Cymru**

R8 – **No name given**

R9 — **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent**

R10 — **Cymru yn coop**

R11 – **David Hawker**

R12 – **Heddlu De Cymru**

R13 — **Gofal a Thrwsio Cymru**

R14 – **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin**

R15 – **Tyfu Tai Cymru**

R16 – **Comisiynydd Pobl Hyn Cymru**

R17 – **Steve Vaughan, Retired Civil Servant , Former Policy Lead Integration**

R18– **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gorllewin Cymru**

R19 – **Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell Nedd Port Talbot**

R20 – **Cyngor Gwelthredu Gwirfoddol Cymru**

R21 – **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Caerdydd a'r Fro**

R22 – **Cymdeithas Llyodraeth Leol Cymru**

R23 – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr**

R24 – **Comisiynydd Plant Cymru**

R25 – **Caerdydd A Bro Morgannwg Cyngor Iechyd Cymuned**

R26 – **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gogledd Cymru**

Atodiad

R27 – **Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru**

R28 – **Abertawe Bro Morgannwg Community Health Council**

R29 – **Cyngor Gwynedd**

R30 – **Confederasiwn GIG Cymru**

R31 – Jean Carter, Citizen rep on Powys Regional Partnership Board - Unpaid Carer

R32 – **Cyngor sir ddinbych**

R33 – **Cymorth Cymru**

R34 – **Bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf**

R35 – **Conwy Cygnor Bwrdeistref Sirol**

R36 – **Oedran Cymru**

R37 – **Coleg Nyrsio Brenhinol**

R38 – **Cyngor Abertawe Tai**

R39 – **Cymdeithas Dai Cadwyn**

R40 – **Cymdeithas Alzheimers Cymru**

R41 – **Cartrefi Cymunedol Cymru**

R42 – **Fforwm Gofal Cymru**

R43 – Dusty Kennedy – Police and Partners ACEs Programme Early Action Together

R44 – **Cyngor 3Y trydydd sector Caerdydd C3SC**